


Archwilio Ein Byd

Fi fy hun ac Eraill



Croeso Welcome



Archwilio Ein Byd

Fi fy hun ac Eraill

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau, Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwranddo ar storïau eu ffrindiau ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Ein Byd* yw:

Plant 3 – 5 oed
Dathliadau
Fi fy hun ac Eraill
Adegau a Thymhorau

Plant 5 – 7 oed
Teithiau
Pobl Arbennig
Arwyddion a Symbolau






Heddiw, mae Aled a Siân yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf.



Mae'r ysgol yn edrych yn lle braf ac mae croeso yno.



Mae'r athrawes yn dweud, "Helo, Aled a Siân. Dewch i mewn a mwynhau ein teulu ysgol."



Yn yr ysgol, mae Aled a Siân yn cyfarfod ffrindiau newydd.



Mae Aled a Siân yn teimlo'n ddiogel a hapus yn eu teulu ysgol.



Mae'r eglwys yn edrych yn lle braf ac mae croeso yno.



Mae'r ficer yn dweud, "Helo, Peter a Mary. Dewch i mewn a mwynhau ein teulu Cristnogol."



Yn yr eglwys, mae Peter a Mary'n cyfarfod ffrindiau newydd.



Mae Peter a Mary'n teimlo'n ddiogel a hapus yn eu teulu Cristnogol.



Mae'r synagog yn edrych yn lle braf ac mae croeso yno.



Mae'r rabi'n dweud, "Helo, Nathan a Rachel. Dewch i mewn a mwynhau ein teulu Iddewig."




Yn y synagog, mae Nathan a Rachel yn cyfarfod eu ffrindiau newydd.



Mae Nathan a Rachel yn teimlo'n ddiogel a hapus yn eu teulu Iddewig.



Mae'r mosg yn edrych yn lle braf ac mae croeso yno.



Mae'r imam yn dweud, "Helo, Ahmed a Salma. Dewch i mewn a mwynhau ein teulu Mwslimaidd."




Yn y mosg, mae Ahmed a Salma yn cyfarfod eu ffrindiau newydd.



Mae Ahmed a Salma'n teimlo'n ddiogel a hapus yn eu teulu Mwslimaidd.



Mae'r deml yn edrych yn lle braf ac mae croeso yno.



Mae'r offeiriad yn dweud, "Helo, Rajeev a Meena. Dewch i mewn a mwynhau ein teulu Hindwâidd."



Yn y deml, mae Rajeev a Meena'n cyfarfod eu ffrindiau newydd.



Mae Rajeev a Meena'n teimlo'n ddiogel a hapus yn eu teulu Hindwâidd.



Mae Aled a Siân yn mwynhau eu teulu ysgol a gwneud ffrindiau newydd.



Mae Aled a Siân yn mwynhau clywed am deuluoedd eu ffrindiau.



Mae ysgol Aled a Siân yn dod â'r teuluoedd hyn i gyd at ei gilydd.

Heddiw yw diwrnod cyntaf Aled a Siân yn yr ysgol. Maen nhw'n dysgu am deulu'r ysgol. Mae ffrindiau newydd Aled a Siân yn rhannu storïau am eu teuluoedd eraill. Maen nhw wrth eu bodd yn clywed am deuluoedd mawr Cristnogion, Hindŵiaid, Iddewon a Mwslimiaid.



Bear Lands Publishing